



## Myfyrwyr gwaith cymdeithasol ar y Gofrestr 2021/2022

- Myfyrwyr gwaith cymdeithasol sy'n ymuno â'r Gofrestr ac yn ymadael â hi rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022
- Myfyrwyr blwyddyn olaf sy'n cymhwyso ac yn cofrestru fel gweithwyr cymdeithasol rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022

## Myfyrwyr a ddechreuodd y radd mewn gwaith cymdeithasol yng Nghymru ac a ymunodd â'r Gofrestr rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022


### Beth yw'r pwyntiau allweddol?

Mae'n rhaid i'r holl fyfyrwyr sy'n ymuno â'r cwrs gradd mewn gwaith cymdeithasol yng Nghymru gofrestru gyda ni.

Rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022, ymunodd cyfanswm o 283 o fyfyrwyr â'r Gofrestr. Ers hynny, mae 13 wedi tynnu'n ôl, mae 14 wedi gohirio'u hastudiaethau ac atgyfeiriwyd 4, sy'n gadael 252 o fyfyrwyr sydd wedi ymuno â'r Gofrestr ac wedi parhau i gofrestru yn ystod y cyfnod hwn.

### Beth yw oedran a rhywedd y myfyrwyr a ymunodd â'r Gofrestr?

- 91% yn fenywaidd
- 9% yn wrywaidd



32 oedd oedran myfyrwyr gwaith cymdeithasol ar gyfartaledd.



## Beth yw proffil y myfyrwyr a ymunodd â'r Gofrestr?

- Mae 94% o fyfyrwyr gwaith cymdeithasol yn wyn, gwyn Prydeinig neu Wyn Cymreig
- Mae 4% o fyfyrwyr gwaith cymdeithasol yn ystyried eu bod yn anabl
- Mae 24% o fyfyrwyr gwaith cymdeithasol yn siarad Cymraeg yn rhugl
- Mae 95% o fyfyrwyr gwaith cymdeithasol yn heterorywiol

## Pa gyrsiau y mae myfyrwyr cofrestredig yn eu dilyn?

Sefydliad Hyfforddi / Enw'r Cwrs	Nifer wedi cofrestru
Prifysgol Metropolitan Caerdydd – BSc (Anrh.) mewn Gwaith Cymdeithasol	24
Prifysgol Metropolitan Caerdydd – Coleg Penybont – BSc (Anrh.) mewn Gwaith Cymdeithasol	12
Prifysgol Caerdydd – MA mewn Gwaith Cymdeithasol	30
Prifysgol Glyndŵr – BA (Anrh.) mewn Gwaith Cymdeithasol	27
Prifysgol Abertawe – BSc (Anrh.) mewn Gwaith Cymdeithasol	26
Prifysgol Abertawe – MSc mewn Gwaith Cymdeithasol	14
Y Brifysgol Agored – BA (Anrh.) mewn Gwaith Cymdeithasol	81
Prifysgol De Cymru – BSc (Anrh.) mewn Gwaith Cymdeithasol	24
Prifysgol Bangor – MA mewn Gwaith Cymdeithasol	14
<b>Cyfanswm</b>	<b>252</b>

## Faint o fyfyrwyr yn gyfan gwbl adawodd eu cwrs a pham?

Rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022, gadawodd cyfanswm o 56 myfyriwr o'r holl flynyddoedd â'u cwrs a thynnwyd eu henw o'r Gofrestr am y rhesymau a ddangosir yn y tabl canlynol.


Rheswm dros adael	Nifer	Canran
Personol	31	55.4%
Academaidd	13	23.2%
Iechyd	11	19.6%
Ymddygiad/Addasrwydd	1	1.8%
<b>Cyfanswm</b>	<b>56</b>	<b>100.0%</b>




## Myfyrwyr blwyddyn olaf sy'n cymhwyso ac yn ymuno â'r Gofrestr fel gweithwyr cymdeithasol Ebrill 2021 – Mawrth 2022

Rydym wedi cyhoeddi ffeithlen broffil o'r holl weithwyr cymdeithasol ar y Gofrestr yn Ebrill 2022. Mae hyn yn cynnwys 191 o fyfyrwyr blwyddyn olaf a raddiodd yng Nghymru ac a ymunodd â'r Gofrestr fel gweithwyr cymdeithasol yn y 12 mis blaenorol.

### Pa gymwysterau yr oedd gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso a ymunodd â'r Gofrestr yn eu dal?




### Beth yw proffil oedran a rhywedd gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso sy'n ymuno â'r Gofrestr?





## Beth yw categori cyflogaeth gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso sy'n ymuno â'r Gofrestr?\*



\*Ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan yr unigolion cofrestredig, yn Rhagfyr 2022.